**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Ebrill 2026, yn Festri Troedyrhiw am 7.30pm.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Cyng. Haf Hughes (Cadeirydd), Melinda Williams, Lynford Thomas Dan Evans, Euros Davies, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Gerwyn Owen,

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Hywel Ifans, Wendy Lloyd Lewis

2. **PERSONOL -** Dim materion personol

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL** - Ni ddatglewyd unrhyw fuddion personol

4. **CADARNHAU COFNODION 10/03/26**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Euros ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
   **14c. Llwybyr Cerdded Cribyn.** Cafwyd ymateb gan Steve Jones y Ranger yn dweud bod y clawdd wedi cael ei dorri'n ddiweddar a bydd yn trefnu toriad arall yn fuan ac un arall ym mis Gorffennaf.

   **14 d. Baw Cwn Felinfach:** Cafwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn awgrymu postio lluniau ar y dudalen gymunedol leol/cyfryghau cymdeithasol neu gylchlythyr i'r pentre. Nid chafwyd unrhyw gyngor ar sut y gellid gweithio ar y cyd.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Ni dderbyniwyd adroddiad

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU** Derbyniwyd adroddiad gan PC Liz Jenkins yn nodi'r troseddau/digwyddiadau dros y mis diwethaf.

8. **CYLLID**

   a. Tal y Clerc Mawrth '26 £228.73
   b. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol o 10/02/26 – 09/03/26 £**5,25**
   c. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd o 10/02/26 – 09/03/26 £**4.25**
   d. **Talid** Antur Cymru – Gwasanaeth Payroll £72
   e. **Taliad T**elemat/Antur Cymru – Adnewyddu Enw Parth y Wefan £47.98
   f. **I DALU :** Quote wrth Zurich am £750.59 (y'n ni dal yn y Long Term Agreement am flwyddyn arall).

9. **CYNLLUNIO –**
   Yn dilyn trafodaeth cefnogwyd y ddau cais isod:

   i. **A260125** Mr Neil Bennett- New Celtic Lakes. Machinery Storage Shed.
   **A260145** Mr Graham Tagg Dwyryd, Cribyn,
   ii. Domestic ground mounted solar PV installation

## 10. PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 09/04/26

Gohirwyd y cyfarfod hwn tan yr 16eg Ebrill, 2026

## 11. PENODI GOFALWR I AROSFA BWS DIHEWYD

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd byddai'r Cyng. Gerwyn Owen yn cysylltu â'r person dan sylw ac os na bydd ganddo ddiddordeb y Clerc i gysylltu â'r clanhawr presennol.

## 12. BOCSUS BLODAU

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd byddai'r aelodau yn cymryd gofal dros blannu blodau ac yna gofyn i'r rhai bu'n gofalu am y bocsus yn flaenorol i wneud hynny unwaith eto. Cytunwyd i gwrdd â chostau prynu'r blodau ac I drefnu dyddiad plannu yn y cyfarfod nesa.

## 13. GOHEBIAETH

**Derbyniwyd lythyron diolch oddi wrth:**

a. Cor Corisma am y rhodd o £100
b. Urdd Ceredigion am y rhodd o £50.00

## 14. UNRHYW FATER ARALL

a. Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol Statudol.
b. Derbyniwyd ac arwyddwyd Ffurflen Cwrteisi a Pharch Un Llais Cymru
**c.** Yn dilyn sawl achos o ddifrod ar ei heiddo, cafwyd cais gan berchenngo Felin Hafodwen Cribyn, drwy'r Cyng. Alan Henson, i osod arwyddion newydd, mwy amlwg yn rhybuddio am yr hewl cul. **Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd.**
d. Nododd y Cyng. Melinda Williams bod cwestiwn wedi codi parthed ail-gyflwyno'r T1 trwy Gribyn. Mewn ateb i'r cwestiwn nodwyd bod Dirprwy Ken Skates, Aelod y Cabinet ar Drafnidiaeth, eisoes wedi bod mewn cyfarfod yng Nghribyn ond nad oes dilyniant i'r ymweliad hwnnw wedi digwydd hyd yn hyn.
e.

## 15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF A'R CYFARFOD BLYNYDDOL

Mai 12fed yn Neuadd Dihewyd